

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal ym Mhencadlys y Cyngor,
Y Pafiliynau, Cwm Clydach (Siambwr y Cyngor)**

brynhawn Iau 21 Ionawr, 2016 am 2.00

Dolen gyswllt: Mrs Emma Wilkins (Rhif ffôn 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 5pm ar 19 Ionawr 2016. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443-424062 neu anfonwch e-bost i Cabinet@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1 DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Côt Ymddygiad y Cyngor.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2 HUNANWERTHUSIAD CORFFORAETHOL A GWASANAETHAU'R CYNGOR

Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr sy'n rhoi gwybodaeth i Aelodau am y newidiadau i waith cynllunio'r Cyngor ar gyfer gwella, ac i ystyried hunanwerthusiad corfforaethol a gwasanaethau'r Cyngor a'r gwasanaethau y mae'n eu cynnal.

3 BWRDD DIOGELU PLANT CWM TAF – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2014/15

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n cynnwys Adroddiadau Blynyddol Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf a Bwrdd Diogelu Oedolion Cwm Taf ar gyfer 2014/15.

Tudalennau 67 - 102

4 DARPARIAETH IS-DDEDDFAU AR ACIWBIGO, TATŴIO, LLIWIO CROEN YN LLED BARHAOL, TYLLU COSMETIG AC ELECTROLYSIS YN RHONDDA CYNON TAF.

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi gwybod i'r Cynghorwyr am yr adolygiad cynhwysfawr o'r is-ddeddfau model presennol yn yr ardal.

Tudalennau 103 - 117

5 DEDDF TEITHIO LLESOL (CYMRU) 2013: CYFLWYNO MAP LLWYBRAU PRESENNOL I LYWODRAETH CYMRU

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n rhoi gwybod i Aelodau am y gwaith sydd wedi'i wneud i fodloni darpariaethau Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, cyn cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Tudalennau 118 - 150

6 RHAGLEN WAITH Y CABINET: CHWEFROR – EBRILL 2016

Derbyn adroddiad yr Ysgrifennydd i'r Cabinet sy'n amlinellu Rhaglen Waith y Cabinet ar gyfer cyfnod o dri mis - Chwefror, Mawrth ac Ebrill 2016.

Tudalennau 151 - 156

7 CYNIGION NEWID GWASANAETH:- OPSIYNAU AR GYFER CWTOGI COSTAU GOLEUADAU STRYDOEDD TRWY DROSI'R UNEDAU GOLAU PRESENNOL I UNEDAU DEUODAU ALLYRRU GOLAU (LED).

I dderbyn yr adroddiad o'r Cyfarwyddwr Cyfadran, y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng-flaen sy'n cynnwys opsiynau ar gyfer newid gwasanaeth ynghylch cwtogi costau referniw goleuadau strydoedd.

Tudalennau 157 - 166

8 MATERION BRYS

Ystyried unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet

